

# Tueddiadau cyngor yng Nghymru

2016 i 2017

Ystadegau am gleientiaid gwasanaeth  
Cyngor ar Bopeth yng Nghymru



Cara Jones

# Cynnwys

<b>Cyngor ar Bopeth yng Nghymru</b>	3
<b>Crynodeb Gweithredol</b>	4
<b>Tueddiadau Cyngor</b>	6
<b>Canolbwyntio ar Gyflogaeth</b>	8
<b>Gwasanaeth Defnyddwyr Cyngor ar Bopeth</b>	12
<b>Atodiad: Deall yr Ystadegau Cyngor</b>	13

# Cyngor ar Bopeth yng Nghymru

Elusen annibynnol ar gyfer Cymru a Lloegr yw Citizens Advice, sy'n gweithredu dan yr enw Cyngor ar Bopeth yma yng Nghymru gyda swyddfeydd yng Nghaerdydd a'r Rhyl. Mae yna 19 o ganghennau Cyngor ar Bopeth lleol yng Nghymru, ac mae pob un ohonynt yn aelodau o Cyngor ar Bopeth Cymru, oll yn aelodau o Gyngor ar Bopeth, sy'n darparu gwasanaethau o dros 300 o leoliadau yn ogystal â chynnig gwasanaethau dros y ffôn ac ar-lein.

Mae'r cyngor sy'n cael ei ddarparu gan y gwasanaeth Cyngor ar Bopeth yn rhad ac am ddim, yn annibynnol, yn gyfrinachol ac yn ddiudedd, ac mae ar gael i bawb beth bynnag yw eu hil, rhyw, anabled, cyfeiriadedd rhywiol, crefydd, oedran neu genedligrwydd.

Gwirfoddolwyr hyfforddedig yw'r rhan fwyaf o staff gwasanaethau Cyngor ar Bopeth. Mae holl aelodau'r staff, boed yn cael eu cyflogi neu'n gwirfoddoli, yn cael eu hyfforddi mewn sgiliau cynghori ac yn cael y wybodaeth ddiweddaraf am hyfforddiant pwnc benodol a mynediad i gymorth a chyngor arbenigol seiliedig ar bynciau.

Dau nod Cyngor ar Bopeth yw:

- Darparu'r cyngor y mae pobl ei angen ar gyfer y problemau sy'n eu hwynebu
- Gwella'r polisiau a'r arferion sy'n effeithio ar fywydau pobl

Mae Canolfannau Lleol, o dan delerau aelodaeth Cyngor ar Bopeth, yn darparu cyngor ar faterion defnyddwyr, budd-daliadau lles, tai, trethi, iechyd, cyngor ar arian, cyflogaeth, gwahaniaethu, materion teuluol a phersonol, mewn fudo a chenedligrwydd, ac addysg.

Y llynedd **fe wnaethom helpu dros 114,000 o bobl yng Nghymru** wyneb yn wyneb, dros y ffôn, drwy e-bost neu we-sgwrs. Mae hyn yn rhoi darlun unigryw i ni o anghenion a phryderon pobl yng Nghymru. Rydym yn defnyddio'r wybodaeth hon i ymgyrchu ar faterion o bwys, yn lleol ac yn genedlaethol.

## Rhagor o wybodaeth:

Os hoffech chi dderbyn rhagor o wybodaeth am y math o broblemau y gall eich Canolfan leol roi cyngor arnynt, neu os hoffech chi drafod unrhyw un o'r materion a nodir yn yr adroddiad hwn, dylech chi e-bostio: [policy.cymru@citizensadvice.org.uk](mailto:policy.cymru@citizensadvice.org.uk)


Os hoffech chi astudio'r data'n fanylach, mae Tueddiadau Cyngor yn adnodd data rhyngweithiol misol sy'n adrodd ar faterion cleientiaid y mae swyddfeydd Cyngor ar Bopeth lleol wedi rhoi cyngor arnynt dros y 24 mis diwethaf: [Tueddiadau Cyngor](#)  
Mae'r rhan fwyaf o'r data yn yr adroddiad hwn yn dod o rifyn Mawrth 2017: [Tueddiadau Cyngor Mawrth 2017](#)

# Crynodeb Gweithredol



Yn ystod 2016 i 2017 **fe wnaethom helpu 114,282 o bobl gyda 436,254 o broblemau**, sef 4% yn fwy o bobl a 4% yn fwy o broblemau nag yn ystod 2015 i 2016. Ar gyfartaledd, daeth pobl atom gyda 3.8 problem wahanol. Mae'r ffigur hwn yr un fath â 2015 i 2016.


Yn 2016 i 2017, **defnyddiwyd ein gwefan gan bron i 900,000 o bobl yng Nghymru, ac edrychwyd ar fwy na 3.8 miliwn o dudalennau**, sef cynnydd o dros 200,000 o bobl ac 1.4 miliwn o dudalennau ers 2015 i 2016.



## Sut y gwnaeth pobl gysylltu â ni:




## Meysydd cyngor 2016 i 2017:



## Newid yng nghanran y 5 prif broblem ers 2015 i 2016:

Budd-daliadau a chredydau treth:	Dyled:	Gwasanaethau a gallu ariannol:	Cyflogaeth	Tai
+12%	+6%	+3%	-7%	-13%


## Ein Cleientiaid:



## Prif Broblemau:

### Budd-daliadau a chredydau treth:

Yn ystod 2016 i 2017, fe wnaethom helpu **54,879 o bobl gyda 182,457 o broblemau'n ymwneud â budd-daliadau**, sef cynnydd o 10% yn y nifer o bobl a welsom (49,858) a chynnydd o 12% yn y nifer o broblemau (163,417) ers 2015 i 2016. Y budd-daliadau a achosodd y problemau mwyaf oedd y Taliad Annibyniaeth Personol a'r Lwfans Cyflogaeth a Chymorth.




### Nifer y problemau'n ymwneud â budd-daliadau yn 2016 i 2017:




### Dyled:

Fe welsom **29,384 o bobl gyda 132,048 o broblemau'n ymwneud â dyled**, sef cynnydd yn nifer y bobl (26,413) a nifer y problemau (124,605) o'i gymharu â 2015 i 2016. Y problemau dyled mwyaf oedd ôl-daliadau'r dreth gyngor (6,331 o bobl), credyd, dyledion yn ymwneud â siopau a chardiau credyd (5,806 o bobl) a dyledion yn deillio o fenthyciadau personol heb eu gwarantu (5,515 o bobl).



### Tai:

Fe welsom **10,577 o bobl gyda 14,741 o broblemau**. Roedd llawer o broblemau yn y maes hwn yn ymwneud â thai yn y Sector Rhentu Preifat, gyda bron i draean o'r problemau'n ymwneud â thai sy'n cael eu rhentu'n breifat.




# Canolbwyntio ar Dueddiadau Cyngor

## Budd-daliadau a chredydau treth:

Yn ystod 2016 i 2017 fe wnaethom helpu **54,879 o bobl gyda 182,457 o broblemau'n ymwneud â budd-daliadau**, sef cynnydd o 10% yn nifer y bobl (49,858) a chynnydd o 12% yn nifer y problemau (163,417) ers 2015 i 2016. Roedd traean o'r holl problemau'n ymwneud â budd-daliadau yn 2016 i 2017 yn gysylltiedig â'r Taliad Annibyniaeth Personol.

Ers 2015-2016, bu cynnydd o 38% yn nifer y bobl sydd angen cymorth gennym ar gyfer y Taliad Annibyniaeth Personol. Y rheswm posibl am hyn yw bod mwy o bobl sy'n derbyn Lwfans Byw i'r Anabl ar hyn o bryd yn cael cyfle i wneud cais am Daliad Annibyniaeth Personol wrth i'r budd-dal newydd hwn barhau i gael ei gyflwyno'n ehangach. Mae'r system o ddyfarnu Taliad Annibyniaeth Personol yn wahanol i'r system ar gyfer Lwfans Byw i'r Anabl. Mae Taliad Annibyniaeth Personol yn seiliedig ar sut mae cyflwr unigolyn yn effeithio arno, nid ar y cyflwr sydd arno.

## Nifer y bobl yn gofyn am gymorth ar gyfer pob budd-dal:



O edrych ar y problemau penodol a wynebir gan bobl mae rhai o'r problemau yn ymwneud â'r Taliad Annibyniaeth Personol yn deillio o'r broses o gyflwyno unrhyw fudd-dal newydd, ond serch hynny, mae nifer y bobl sy'n herio ac yn apelio yn erbyn penderfyniadau'r Taliad Annibyniaeth Personol wedi cynyddu'n sylweddol. Mae problemau'n ymwneud ag ansawdd asesiadau a chyflwyno ac ystyried tystiolaeth bellach yn gyffredin hefyd.


Yn 2016 i 2017, daeth **bron i 1,500 o bobl atom i drafod problem yn ymwneud â Chredyd Cynhwysol**. Ar hyn o bryd, mae nifer y bobl sy'n dod atom i drafod problemau'n ymwneud â Chredyd Cynhwysol yn cynyddu bob chwarter, ac rydym yn rhagweld y bydd hyn yn parhau wrth i'r gwasanaeth llawn gael ei gyflwyno'n ehangach ym mis Hydref. Os yw hyn yn digwydd, mae'n bosibl mai Credyd Cynhwysol fydd y broblem fwyaf rydym yn ymdrin â hi ledled y gwasanaeth.

## Cynnydd yn nifer y bobl sydd â phroblemau'n ymwneud â'r Taliad Annibyniaeth Personol:

	Gwneud a rheoli cais	Cymhwysedd-bywyd bob dydd	Cymhwysedd - symudedd	Herio penderfyniad	Apelio
Cynnydd (canran):	+22%	+25%	+21%	+86%	+78%
Pobl 2016-2017:	8,574	9,279	7,934	3,836	3,998
Pobl 2015-2016:	7,055	7,418	6,571	2,059	2,242

## Dyled:

Fe welsom **29,384 o bobl gyda 132,048 o broblemau'n ymwneud â dyled**, sef cynnydd yn nifer y bobl (26,413) a nifer y problemau (124,605) o gymharu â 2015 i 2016. Y problemau mwyaf yn ymwneud â dyled y gwnaethom helpu pobl i'w datrys oedd ôl-daliadau'r dreth gyngor, credyd, dyledion yn ymwneud â chardiau siopau a chredyd a dyledion yn deillio o fenthyciadau personol heb eu gwarantu.




## Newidiadau mewn problemau'n ymwneud â dyled:

	Ôl-daliadau'r dreth gyngor	Credyd, dyledion yn ymwneud â chardiau siopau a chredyd	Benthyciadau personol heb eu gwarantu	Gorchymyn Rhyddhau o Dyled	Pob dyled arall
Newid (canran):	+3%	+15%	+9%	-1%	+6%
Problemau 2016-2017:	16,493	14,526	12,772	12,330	75,813
Problemau 2015-2016:	16,022	12,686	11,687	12,403	71,752


## Gwasanaethau a galluogrwydd ariannol:

Fe wnaethom helpu **8,566 o bobl gyda 23,847 o broblemau'n ymwneud â gwasanaethau a galluogrwydd ariannol**. Mae 6% o'r holl problemau rydym yn helpu pobl i ymdrin â nhw yn gysylltiedig â gwasanaethau a galluogrwydd ariannol, a hwn categori cyffredinol mwyaf ond dau ar ôl cyngor ar ddyled a budd-daliadau. Mae ychydig dros 50% o'r problemau a gofnodir yn y maes hwn yn ymwneud â galluogrwydd ariannol. Y rheswm am hyn yw bod cyngor a gwybodaeth am alluogrwydd ariannol yn cael eu darparu ochr yn ochr â chyngor ar ddyled yn aml er mwyn darparu cymorth uniongyrchol mewn argyfwng a chyngor ar gyllidebu i helpu i osgoi problemau'n ymwneud â dyled yn y tymor hirach.



## Tai:

Fe welsom **10,577 o bobl gyda 14,741 o broblemau**. Roedd bron i draean o'r problemau yn y maes hwn yn gysylltiedig â thair Sector Rhentu Preifat. Wrth edrych yn fanylach ar y problemau yn y Sector Rhentu Preifat, nid yw'r tair broblem fwyaf wedi newid ers sawl blwyddyn bellach.



# Canolbwyntio ar Gyflogaeth

Yn 2016 i 2017 fe wnaethom gynghori **10,937 o bobl ar 17,064 o broblemau'n ymwneud â chyflogaeth**. Problemau'n ymwneud â thâl a hawliau a godwyd amlaf yn y maes hwn yn 2016 i 2017 (25% o'r holl broblemau'n ymwneud â chyflogaeth).

**Y pynciau y gwnaethom roi cyngor arnynt yn 2016/17:**

Diswyddo

Mynediad i swyddi

Telerau ac Amodau Cyflogaeth

Ymddiswyddo

Tâl a Hawliau

Hawliau Rhieni a Gofalwyr

Ymgeisio am swyddi **Dileu Swydd**

Tribiwnlysoedd cyflogaeth ac apelio


Datrys Anghydfod

Hunangyflogaeth / Busnes


Mater Cynghori	Nifer y bobl 2016/17	Canran y newid ers 2015/16
Tâl a Hawliau	3,596	-4%
Diswyddo	2,075	-1%
Telerau ac Amodau Cyflogaeth	1,958	-8%
Datrys Anghydfod	1,432	-11%
Dileu Swydd	864	-16%
Hunangyflogaeth / Busnes	666	+1%
Tribiwnlysoedd cyflogaeth ac apelio	366	-12%
Hawliau Rhieni a Gofalwyr	456	-3%
Ymddiswyddo	385	+4%
Ymgeisio am swyddi	286	+23%
Mynediad i swyddi	108	-1%



## Ein Cleientiaid Cyflogaeth:




Roedd 55% o'r bobl a ddaeth atom i drafod problemau'n ymwneud â chyflogaeth yn fenywod. Mae'r ganran hon 5 pwynt canran yn uwch na phoblogaeth Cymru. Roedd gan 49% o'r bobl a ddaeth atom am gyngor anabledd neu gyflwr iechyd hirdymor. Fodd bynnag, roedd gan 25% o'r bobl a ddaeth atom i drafod problemau'n ymwneud â chyflogaeth anabledd neu gyflwr iechyd hirdymor. Mae'r ganran hon dau bwynt canran yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol o hyd.




Roedd bron i draean o'r cleientiaid oedd yn gofyn am gyngor ar gyflogaeth rhwng 25 a 34 oed. Mae'r ffigur hwn yn agos i ddwywaith yn fwy na nifer y bobl yn y grŵp oedran hwn ym mhoblogaeth gyffredinol Cymru.

## Dadansoddiad o'r cleientiaid:

Mae cyfran y bobl ag anabledd neu gyflwr iechyd hirdymor sy'n dod atom ar gyfer cymorth cyflogaeth yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol yn aml. Roedd gan 41% o'r 108 o bobl a ddaeth atom i drafod mynediad i swyddi anabledd neu gyflwr iechyd hirdymor. Mae'r ganran hon 18 pwynt canran yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol.




Mae problemau'n ymwneud â chyflogaeth yn effeithio ar fwy o fenywod na dynion. Mae 88% o'r bobl sy'n dod atom i drafod problemau'n ymwneud â hawliau rhieni a gofalwyr yn fenywod, sy'n 37 pwynt canran yn uwch na chyfartaledd Cymru.



### Cymorth ychwanegol:

Ar gyfartaledd, mae gan bob person sy'n dod atom am gymorth 3.8 o broblemau. Yn 2016 i 2017, roedd chwarter y bobl â phroblemau'n ymwneud â chyflogaeth angen ein cymorth ar gyfer problemau'n ymwneud â budd-daliadau a chredydau treth hefyd.



## Cyngor ar Wahaniaethu:

Yn 2016 i 2017, **manteisiodd 1334 o bobl ar ein prosiect Cyngor ar Wahaniaethu, ac roedd 1048 o'r achosion hyn yn ymwneud â chyflogaeth.** Mae'r prosiect Cyngor ar Wahaniaethu yn rhan o'r gwasanaeth Cyngori Rheng Flaen a ariennir gan Lywodraeth Cymru, ac mae'n cael ei ddarparu mewn partneriaeth â SNAP Cymru.

Mae tua thri chwarter yr holl achosion gwahaniaethu sy'n dod i sylw'r gwasanaeth Cyngori Rheng Flaen yn ymwneud â phroblemau cyflogaeth. Mae'r prosiect yn darparu gwasanaethau llwyth gwaith llawn (o'r gŵyn wreiddiol i gynrychiolaeth bosibl mewn tribiwnlys) a chronfa ffioedd tribiwnlysoedd. Defnyddiwyd y gronfa ffioedd tribiwnlysoedd i dalu ffioedd ymlaen llaw er mwyn sicrhau bod gan gleientiaid fynediad i gyfiawnder.

Mae Cyngor ar Bopeth yn croesawu dyfarniad diweddar y Goruchaf Lys bod ffioedd ar gyfer Tribiwnlysoedd Cyflogaeth yn anghyfreithlon, ac mae wedi galw ar y llywodraeth i weithredu'n ddi-oed i roi'r gorau i'r system ffioedd a sicrhau bod pawb sydd wedi gorfod talu ffioedd yn derbyn eu harian yn ôl.

Mae'r astudiaeth achos ganlynol yn dangos y math o gymorth sy'n cael ei gynnig gan y gwasanaeth i bobl ledled Cymru.

## Hanes John:

Roedd John yn 67 oed ac wedi bod yn gweithio i'r un cyflogwr ers 11 mlynedd. Roedd yn bwriadu parhau i weithio am dair blynedd arall, ond terfynwyd ei gytundeb. Roedd John yn poeni'n fawr am y sefyllfa hon ac yn teimlo'n ddiymadferth. Fe aeth Cyngor ar Bopeth ati i lunio rhestr o golledion, gan drafod â'r cyflogwr drwy'r Gwasanaeth Cyngori, Cymodi a Chyflafareddu. Yn dilyn y broses hon, derbyniodd John setliad gwerth £20,000 ac roedd yn hapus i ddatrys y mater yn gyflym yn hytrach na wynebu'r posibilrwydd o achos llys hir. Ers y setliad, mae iechyd cyffredinol a lles meddyliol John wedi gwella'n sylweddol ac mae'n teimlo'n ddigon iach i ddechrau chwilio am swydd arall a gwneud cyfraniad cadarnhaol at y farchnad lafur am ychydig flynyddoedd eto.



# Gwasanaeth i Ddefnyddwyr Cyngor ar Bopeth

Mae Cyngor ar Bopeth a Citizens Advice Scotland (CAS) yn gyfrifol am ddarparu gwasanaeth cynghori defnyddwyr dros y ffôn ac ar y we. Ers 2 Ebrill 2012 pan ddechreuodd Cyngor ar Bopeth reoli darpariaeth y gwasanaeth hwn, mae'r gwasanaeth i ddefnyddwyr wedi ymdrin â mwy na dwy filiwn o gleientiaid ledled y DU.


Mae gwasanaeth i ddefnyddwyr Cyngor ar Bopeth yn cynghori pobl ar y gyfraith gyffredinol yn ymwneud â defnyddwyr, rheolau a hawliau'n ymwneud â diwydiannau penodol. Amcan y gwasanaeth hwn yw darparu gwybodaeth i bobl fel y gallant ddatrys problemau'n ymwneud â masnachwyr a chwmnïau eu hunain, gan geisio lleihau'r tebygolrwydd y bydd problemau tebyg yn codi yn y dyfodol. Rydym yn gwneud y canlynol ar gyfer cleientiaid na allant ymdrin â'u hacos eu hunain:

- Trosglwyddo'r broblem i bartneriaid fel Safonau Masnach
- Os yw'r broblem y tu hwnt i gwmpas y gwasanaeth, rydym yn rhoi gwybodaeth am sefydliad mwy priodol
- Os yw'r rhwydwaith Cyngor ar Bopeth lleol yn gallu cynorthwyo gyda phroblem benodol, mae'r sawl sy'n cysylltu yn cael ei atgyfeirio i'r swyddfa leol.


## Y pynciau y gwnaethom gynghori arnynt yn 2016 i 2017:

Yn 2016 i 2017, fe wnaeth y gwasanaeth i ddefnyddwyr ymdrin â **31,114 o achosion ar ran defnyddwyr o Gymru.**

Y broblem fwyaf cyffredin yn 2016 i 2017 oedd trafndiaeth (7,073 o achosion). Mae hyn wedi newid ers 2015 i 2016 pan oedd y nifer fwyaf o achosion yn ymwneud â ffitiadau ac offer mewn (8,782).



## Manylion achosion yn ymwneud â thrafnidiaeth



# Atodiad: Deall yr Ystadegau Cyngor

Pan fydd cleient yn cysylltu â Cyngor ar Bopeth mewn swyddfa leol, dros y ffôn neu drwy we-sgwrs, cofnodir ei fanylion mewn cronfa ddata. O ganlyniad, mae gennym gofnod cenedlaethol o bob cleient unigol sy'n cynnwys gwybodaeth am oedran, rhyw, ethnigrwydd ac anabled, yn ogystal â nodweddion eraill fel yr awdurdod lleol a'r ward berthnasol.

Pan fydd cleient yn cysylltu â'r gwasanaeth, bydd cynghorydd yn chwilio am ei gofnod a naill ai'n ychwanegu ymholiad newydd neu'n parhau i weithio ar ymholiad cyfredol os yw'r cleient yn dychwelyd gyda phroblem barhaus. Bydd ymholiad newydd yn cael ei agor os bydd y cleient yn cyflwyno problem newydd neu gyfres o broblemau rhyng-gysylltiedig. Felly, gall pob cleient fod yn gysylltiedig â sawl ymholiad dros amser.

Wrth siarad â chleient, mae'r cynghorydd yn cofnodi manylion yr ymholiad gan ddefnyddio cod sy'n seiliedig ar set safonol o 'faterion cynghori'. Mae'r materion cynghori hyn yn adlewyrchu'r holl broblemau y mae'r cleient yn cael cyngor arnynt yn yr ymholiad presennol. Felly, gall un ymholiad gynnwys nifer o faterion cynghori.

Mae pob mater cynghori yn cael ei godio drwy ddefnyddio system tair rhan:

- Rhan 1 – categori cyffredinol, e.e. budd-dal, dyled ac ati.
- Rhan 2 – dadansoddiad manylach, e.e. y math o ddyled neu fudd-dal.
- Rhan 3 – natur y cyngor, e.e. trafod ad-daliadau gyda chredydwr neu gynghori ar gymhwysedd a hawl i fudd-dal penodol.

Os oes angen rhagor o gymorth ar gleient ynghylch yr ymholiad, bydd cynghorwyr yn ychwanegu cyswllt newydd i'r ymholiad presennol. Nid yw cynghorwyr yn ychwanegu codau newydd os yw'r cyswllt yn ymwneud â mater presennol. Nid yw codau eraill yn cael eu hychwanegu oni bai bod gan y cleient broblem gysylltiedig arall neu os oes angen cyngor o fath newydd arno. Mae'n gallu cymryd rhai misoedd i ddatrys achosion cymhleth a gall materion gael eu hychwanegu wrth i'r achos ddatblygu.

Er enghraifft, mewn achos cymhleth yn ymwneud â dyled, byddai pob dyled yn derbyn cod mater unigol, felly byddai pum cod gwahanol yn cael eu defnyddio ar gyfer pum dyled cerdyn credyd ar wahân. Gall codau gael eu hychwanegu o gategoriâu eraill wedyn ar sail y cyngor sydd ei angen. Felly, byddai codau budd-daliadau'n cael eu hychwanegu pe bai'r cleient yn derbyn cyngor ar fudd-daliadau y gallai eu hawlio, a byddai cod perthynas/teulu'n cael ei ddefnyddio pe bai'r dyledion yn gysylltiedig â pherthynas yn methu a bod angen cyngor ar y cleient am hynny hefyd.

# Rydym yn helpu pobl i ganfod ffordd ymlaen

Mae Cyngor ar Bopeth yn darparu cyngor di-dâl, cyfrinachol ac annibynnol i helpu pobl i oresgyn eu problemau.

Rydym yn eirioli ar ran ein cleientiaid a defnyddwyr ynghylch y materion sy'n bwysig iddynt.

Rydym yn gwerthfawrogi amrywiaeth, yn hyrwyddo cydraddoldeb ac yn herio gwahaniaethu.

Rydym yma i bawb.



**[citizensadvice.org.uk](https://citizensadvice.org.uk)**

Cyhoeddwyd ym mis Awst 2017

Cyngor ar Bopeth yw enw gweithredol Cymdeithas Genedlaethol Cyngor ar Bopeth.

Rhif elusen gofrestrdig 279057.